# Eich Newyddlen

Newyddlen y tenantiaid ar gyfer Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych

Rhifyn pedwar - Gwanwyn 2018

# Rheswm i Ddathlu!!

**Ers ein Newyddlen ddiwethaf rydym wedi bod yn dathlu llwyddiannau, ymrwymiad ac ymroddiad ein tenantiaid a'n staff!**

Cyhoeddi Enillwyr Gwobr Tenantiaid Tai Sir Ddinbych eleni!

Mae Gwobrau Tenantiaid Tai Sir Ddinbych a gynhaliwyd am y tro cyntaf erioed eleni yn dathlu eich llwyddiannau a'ch cyfranogiad chi, eich gwaith yn eich cymunedau a phrosiectau sy'n digwydd ledled Sir Ddinbych.

Mynychodd dros 80 o westeion y seremoni wobrwyo fawreddog ym mwyty 1891 y Rhyl, gan gynnwys tenantiaid, aelodau o fusnesau lleol sy'n noddi'r gwobrau a gweithwyr proffesiynol allweddol Tai a'r Cyngor. I weld lluniau o'r noson a phwy oedd yr enillwyr, ewch i dudalen 4!

Gwobrau Tenantiad
Tai Sir Ddinbych
Denbighshire Housing
Tenant Awards

## Canlyniadau Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr 2018/19

Rydym yn parhau i godi ein safonau i'r lefelau uchaf bosibl ac mae canlyniadau ein harolwg Tenantiaid a Phreswylwyr 2018/2019 yn rhai i'w dathlu! Ymatebodd dros 10% o'n tenantiaid a chynyddodd canlyniadau'n ymwneud â bodlonrwydd cyffredinol mewn chwech allan o saith cwestiwn craidd. Dangosodd yr Arolwg bod:

- **91%** o'n tenantiaid yn fodlon â'r gwasanaeth cyffredinol yr oedd Tai Sir Ddinbych yn ei ddarparu.
- **90%** o denantiaid yn fodlon ag ansawdd cyffredinol eu cartrefi.
- **75%** yn fodlon bod Tai Sir Ddinbych yn gwrando ac yn gweithredu.
- **88%** yn fodlon â'u cymdogaeth yn gyffredinol.
- **89%** yn fodlon â'u rhent.
- **72%** yn fodlon â'r taliadau gwasanaeth.
- **89%** yn fodlon â'r ffordd y mae Tai Sir Ddinbych yn delio â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

**Mae'r canlyniadau llawn a beth fydd yn digwydd nesaf i'w gweld ar dudalennau 16 ac 17**




**Gwaith Wedi'i Gynllunio** Tudalen 6
**Natur er Budd Iechyd** Tudalen 8
**Atgyweirio a Chynnal a Chadw** Tudalen 11

# Tudalen Gynnwys

## Tai Sir Ddinbych:


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad gan Geoff Davies | Tudalen 3 |
| Cyflwyniad gan Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych (DTARF) | Tudalen 3 |
| Diweddariad ar Ailgylchu | Tudalen 10 |
| Diogelwch Tân | Tudalen 12 |
| Dweud Helo – Tai Cyffredinol | Tudalen14 |
| Canlyniadau Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr 2018/19 | Tudalen 16 - 17 |


## Buddsoddiad a Gwelliannau:


| | |
|---|---|
| Rhaglen Fuddsoddi 2019 | Tudalen 6 |
| Gwelliannau i fannau chwarae | Tudalen 7 |
| Trwsio a Chynnal a Chadw | Tudalen 11 |
| Cynlluniau Adeiladau Newydd | Tudalen 13 |


## Cymuned a Phobl:


| | |
|---|---|
| Gwobrau Tenantiaid Tai Sir Ddinbych | Tudalen 4-5 |
| Sut mae cymryd rhan? | Tudalen 10 |
| Credyd Cynhwysol – rheoli eich arian | Tudalen 18 |


## Amgylcheddol:


| | |
|---|---|
| Prosiect Natur er Budd Iechyd - | Tudalen 8-9 |
| Digwyddiad Agor Geufron | Tudalen 9 |




## Bwrdd Newyddion

**Teleofal**
0300 123 3068

**Gwasanaethau Cwsmeriaid**
01824 706000

**Rhif Argyfwng y tu allan i oriau swyddfa**
0300 123 3068

**Llinell Llifogydd**
0345 988 1188

**Rhif Argyfwng Nwy**
0800 111 999

**Rhif Argyfwng Trydan**
0800 404 090

**Galw Iechyd Cymru**
0845 46 47



# Neges gan Geoff Davies

## Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol

**Croeso i'r rhifyn diweddaraf o'ch newyddlen.**

Mae'r rhifyn hwn yn llawn dop o newyddion da, rhesymau i ddathlu a gwybodaeth am beth mae Tai Sir Ddinbych wedi bod yn ei wneud a beth sydd gennym ar y gweill ar gyfer yr ychydig fisoedd nesaf.

Diolch i bob un ohonoch a gymerodd ran yn Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr 2018. Rydym wrth ein bodd gweld bod eich bodlonrwydd yn dal i gynyddu ym mhob maes, sydd yn brawf o'r berthynas waith ragorol sydd gennym gyda chi a'r Ffederasiwn Tenantiaid (DTARF). Rydym wedi cymharu ein canlyniadau â chanlyniadau landlordiaid eraill tebyg, ac rydym yn falch o ddweud ein bod ymhlith y landlordiaid cymdeithasol sy'n perfformio orau yng Nghymru a'r DU. Gan fod hyn yn seiliedig ar adborth gennych chi, ein tenantiaid, mae'n gwneud y canlyniad yn fwy gwerth chweil byth.

Wrth gwrs mae lle i wella o hyd ac mae adborth o'r Arolwg wedi dangos fod ein gwasanaeth trwsio a chynnal a chadw yn un maes sydd angen sylw. O ganlyniad i hyn, dros yr ychydig fisoedd nesaf, byddwn yn rhedeg gweithdai (gw, tudalen 11) er mwyn i chi ein helpu ni i weld sut y gallwn wella. Mae nifer o gyfleoedd eraill i chi gymryd rhan a rhoi gwybod i ni sut yr ydym y perfformio a beth allwn ni ei wneud yn well (tud. 10). Rydym wir yn gwerthfawrogi eich mewnbwn gan y bydd yn ein helpu ni i siapio eich gwasanaethau.

Rydym yn gwybod fod llawer ohonoch yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth yr ydych yn ei gael gan eich Swyddog Tai. I wella eich profiad cwsmer fwy fyth, rydym wedi newid y ffordd y mae staff Tai gweithio. Bydd hyn yn golygu y bydd y Staff Tai allan fwy, yn y cymunedau, yn cynnal ymweliadau cwrteisi, yn cynghori tenantiaid ac yn cynnig cefnogaeth lawn ble bynnag mae angen (tud 14).

Yn olaf, rydym wrth ein bodd â llwyddiant ein Gwobrau Tenantiaid Tai Sir Ddinbych cyntaf (tudalen 4). Roeddem eisiau sefydlu'r Gwobrau hyn er mwyn amlygu'r gwaith gwych yr ydych chi a llawer o bobl yn ein cymunedau yn ei wneud bob dydd, heb ddiolch. Rydym yn gwerthfawrogi cefnogaeth noddwyr y digwyddiad hwn sydd wedi sicrhau y gallwn gadw costau i'r isafswm, ac roedd y noson wobrwyo yn un ardderchog y gwnaeth pawb ei mwynhau.

Yn ôl yr arfer, os oes gennych unrhyw sylwadau am y newyddlen neu ein gwasanaethau, cofiwch cysylltu a ni.

# Cyflwyniad gan Ffederasiwn Tenantiaid A Thrigolion Sir Ddinbych

Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych
Denbighshire Tenants and Residents Federation

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf mae sawl siaradwr allweddol wedi mynychu ein cyfarfodydd, yn cynnwys Dylan o Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych. Cyflwynodd Dylan yr ymgyrch 'Cyngor Allweddol', ac rydym wedi gofyn i Tai Sir Ddinbych drefnu boreau coffi er mwyn iddo allu dod draw am sgwrs efo chi. Bydd y dyddiadau ar gael cyn bo hir.

Mae Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych yn monitro gwasanaethau megis cynnal a chadw tiroedd a thrwsio tai, sydd wedi gwella'n sylweddol ers i'r tîm tai newydd fod yn weithredol. Mae Tai Sir Ddinbych yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r t□m ynglyn â datblygiadau megis adeiladau newydd ac atgyweiriadau. Pe bai mwy o denantiaid yn ymuno â Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych, gallem fod hyd yn oed yn fwy gweithredol. Bydd ein cyfarfodydd nesaf ar 20 Mehefin a 18 Gorffennaf; bydd y lleoliadau'n cael eu cyhoeddi ar ein tudalen Facebook newydd @ DTARF a fydd yn cael ei lansio ym mis Mehefin.

Os hoffech ymuno a'r DTARF mae croeso i chi wneud hynny. Gall unrhyw un ddod i gyfarfod fel llais cymunedol

**Am ragor o wybodaeth ffoniwch**
**John Woodward ar 01745 799083**
**neu e-bostiwch johnwoodward@hotmail.co.uk.**

Edrychwn ymlaen at weld mwy o wynebau newydd yn y cyfarfodydd felly dewch draw i ymuno â ni'n fuan.

Gwobrau Tenantiad
Tai Sir Ddinbych
Denbighshire Housing
Tenant Awards

Noddir gan:

ROGER W. JONES TIMBER & BUILDING MATERIALS

JEWSON

8 Mai 2019, 1891 Y Rhyl

# Gwobrau Tenantiaid 2019

Rydym yn falch o gyhoeddi enillwyr y Gwobrau Tenantiaid Tai Sir Ddinbych cyntaf!!

Llongyfarchiadau i.....

- **Stuart Nield-Siddall**
  Tenant y Flwyddyn. Noddwyd gan Liberty Gas
- **Cymdeithas Cymuned Marsh**
  Grwp Preswylwyr/Tai y Flwyddyn. Noddwyd gan AICO
- **Shirley Rippingale**
  Gwasanaeth Cwsmer Tai Sir Ddinbych y Flwyddyn. Noddwyd gan SC2
- **Bethan Owen**
  Tenant Ifanc y Flwyddyn. Noddwyd gan G Parry
- **Cymdeithas Preswylwyr Trem y Foel**
  Gardd Gymunedol y Flwyddyn. Noddwyd gan CAPITA
- **Angela Carrington-Roberts**
  Gardd Tenant y Flwyddyn. Noddwyd gan Mannau gwyrdd
- **Cyfeillion Pengwern**
  Prosiect Cymunedol y Flwyddyn. Noddwyd gan NOVUS
- **Gina Jones**
  Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig Tai Sir Ddinbych

Hoffem ddiolch yn fawr i'r beirniaid weithwyr tai proffesiynol a chynrychiolwyr Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych, am roi o'u hamser i adolygu a thynnu rhestr fer o'r rhai a enwebwyd ar gyfer gwobrau. Hoffem hefyd ddiolch yn swyddogol i'n prif noddwyr, Jewson a Roger W Jones y Rhyl ac Alliance Leisure a HAGS, noddwyr ein derbynfa, am eu cefnogaeth.

Dywedodd Jamie Groves, Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai: "Roedd yn anrhydedd cydnabod gwaith aruthrol ein tenantiaid a'n staff a'u hymrwymiad tuag at wella eu cymunedau. Maen nhw'n llysgenhadon gwych ac yn dangos yn glir sut y gall unigolion a chymunedau gydweithio i wella bywydau a lles. Da iawn i bawb a enwebwyd, a roddwyd ar y rhestr fer, ar rhai aeth ymlaen i ennill."

Dywedodd Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Cabinet Arweiniol Tai: "Mae gwella tai yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac mae cynnal ein gwobrau cyntaf yn ffordd wych o anrhydeddu unigolion a chymunedau am eu hymrwymiad." Roedd pob un a enwebwyd yn enillydd yn fy llygad i, ond rhaid i mi estyn fy llongyfarchiadau mwyaf gwresog i'r enillwyr. Nhw yw'r hyn sy'n gwneud Tai Sir Ddinbych a'u cymunedau yn wych! Diolch hefyd i bawb a gefnogodd y gwobrau drwy roddion a nawdd er mwyn helpu i wneud y seremoni wobrwyo'n ddigwyddiad i'w gofio. "Rwy'n edrych ymlaen yn eiddgar at weld beth ddaw yn sgil gwobrau 2020."


Tai Sir Ddinbych
Denbighshire Housing








Tai Sir Ddinbych
Denbighshire Housing











# Rhaglen Fuddsoddi 2019

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Yn 2019/20 byddwn yn parhau i fuddsoddi cryn dipyn er mwyn cynnal a gwella cyflwr eich cartrefi.**

Rydym eisioes wedi cyfarfod Safon Ansawdd Tai Cymru ac rydym yn benderfynol o gynnal y safonau hyn, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru yn ogystal â'n safonau uchel ni ein hunain.

Mae nifer o'n rhaglenni buddsoddi yn cael eu cefnogi gan Lwfans Atgyweirio Mawr Llywodraeth Cymru (MRA) o £2.4m y flwyddyn.

Yn ystod 2019 bydd dwy raglen fawr o waith yn digwydd sef:

## Gwelliannau Mewnol

Yn ystod 2019 byddwn yn buddsoddi oddeutu £1 miliwn mewn gwelliannau mewnol ar draws ein tai. Bydd y rhaglen hon o waith yn gwella cartrefi lle mae'r ceginau a'r ystafelloedd ymolchi yn cyrraedd diwedd eu hoes, yn ogystal ag uwchraddio gosodiadau trydanol a ffenestri. Rydym yn anelu at wella 75 ty arall fel rhan o'r rhaglen hon sy'n cael ei chwblhau gan Torus Property Solutions yn y Rhyl.



## Gwelliannau Allanol

Hwn fydd prosiect mwyaf y flwyddyn, gwerth oddeutu £1.5 miliwn, a bydd yn canolbwyntio ar sawl ystâd yn Sir Ddinbych, Trefnant a Rhuthun. Bydd y gwaith yn dechrau yn yr Hydref, fel rhan o'n rhaglen o waith i wella'r tu allan i gartrefi. Fel rhan o'r prosiect hwn bydd 115 o'n tai yn cael eu gwella gyda thoeau, llinellau toeau a rendrad newydd.

Bydd nifer o brosiectau llai hefyd yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn, yn gynnwys gwaith i dynnu hen ffenestri UPVC a gosod rhai newydd, a gwella toeau.

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi hefyd y byddwn eleni yn dechrau ar ein rhaglen effeithlonrwydd ynni. Bwriad hyn yw gwella gradd effeithlonrwydd ynni ein cartrefi a chefnogi targed corfforaethol y cyngor a'n hymrwymiad i leihau biliau tanwydd ein tenantiaid yn y dyfodol. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn newyddlen yr Hydref.





# Rydym wedi gwella ein hardaloedd chwarae er mwyn i chi gael antur yr haf hwn!

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rydym wedi uwchraddio ardaloedd chwarae ar draws Sir Ddinbych ac maent yn awr yn fwrlwm o weithgaredd unwaith eto, gyda phlant yn mwynhau eu hunain ac yn dysgu drwy chwarae.**

Eleni byddwn yn gwneud gwelliannau i dri lle chwarae arall. Mae ein mannau chwarae'n cael eu gwella bob blwyddyn ar sail blaenoriaeth ac eleni byddwn yn buddsoddi yn y rhai canlynol:



**Maes Hafod – Rhuthun**

**Sholing Drive – Y Rhyl**

**Godre'r Coed, Cynwyd**

Bydd yr hen offer chwarae'n cael ei dynnu ac offer modern, arloesol, llwyr gynhwysol sydd wedi'i ddylunio i fod yn ddeniadol i blant o bob oed yn cael ei osod yn ei le.

Bydd ffens newydd hefyd yn cael ei gosod o amgylch y safleoedd a bydd modd eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn o ganlyniad i'r arwyneb pob tywydd arbennig.

Unwaith y bydd y mannau chwarae wedi ailagor, byddwn yn eu harchwilio'n gyson ac yn trwsio unrhyw ddiffygion ar unwaith er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn llefydd diogel, glân a deniadol ar gyfer y dyfodol.

Cyffrous iawn hefyd yw cyhoeddi ein bod wedi llwyddo i gael nawdd ariannol i helpu tuag at greu parc chwarae newydd yn Rhuallt, sydd i gael ei leoli yn yr hen gae ysgol y tu ôl i Ddyffryn Teg.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi ymgynghori gyda'r gymuned leol i ddarganfod beth fydden nhw'n hoffi ei weld yn y parc ac yn y mannau gwyrdd o'i amgylch. Rydym yn gobeithio bod ar y safle erbyn Mehefin 2019. Bydd diweddariadau ar gynnydd y lle chwarae i'w gweld ar ein tudalen Facebook.






# Gwelliannau Amgylcheddol

Gyda'r Gwanwyn wedi cyrraedd mae'r tîm Natur Er Budd Iechyd yn brysur yn cefnogi cymunedau i wella eu hiechyd a'u lles drwy fanteisio ar y mannau gwyrdd bendigedig sydd gennym ar ein carreg drws.

Mae'r prosiect hwn, sy'n cael ei noddi gan Gyfoeth Naturiol Cymru a'i ddarparu mewn partneriaeth ag AHNE Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych, ar hyn o bryd yn cael ei ddarparu mewn pedair ardal beilot sef Prestatyn, Y Rhyl, Corwen a Llangollen gyda dwy sesiwn yr wythnos yn cael eu cynnig ym mhob ardal.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf mae tîm y prosiect wedi bod yn gweithio'n agos â chymunedau lleol. Maent wedi datblygu a darparu cyfleoedd gwych i bobl fynd allan i'r awyr iach a sicrhau fod pawb yn cael cyfle i gymryd rhan.

## Prosiect Natur er Budd Iechyd

Mae sawl sesiwn eisoes wedi'u darparu ac mae gennym amserlen brysur o ddigwyddiadau ar gyfer yr haf -

- Sgiliau coetir, crefftau goroesi yn y gwyllt a brecwast yn y coed
- Cyfleoedd i wneud gwaith cadwraeth a garddio gwirfoddol
- Teithiau cerdded ymwybyddiaeth ofalgar, cerdded Llychlynnaidd a theithiau iechyd.
- Celf a Chrefft amgylcheddol, yn cynnwys gwehyddu helygen, gwneud ffelt a blychau adar, ystlumod a phathewod.
- Sesiynau lotments a thyfu bwyd.
- Teithiau i erddi lleol a safleoedd AHNE yn cynnwys Loggerheads, Plas Newydd, Rhaeadr y Bedol, Camlas Llangollen, Parc Gwledig Tŷ Mawr, Nant Clwyd y Dre, Erddig a llawer mwy.
- Gweithgareddau dros y gwyliau ar gyfer pobl iau a theuluoedd









# Gardd Bwyd Cymunedol Geufror

Mae Man Tyfu Bwyd Cymunedol Geufron yn awr yn barod a chawsom agoriad swyddogol ym mis Mawrth gyda Maer y Rhyl, y Cynghorydd Win Mullen-James.

Dywedodd y Maer: "Mae'n wych gweld tir diffaith yn y Rhyl wedi ei drawsnewid a'i gyflwyno i'n Cymuned i'w ddefnyddio fel lle i dyfu bwyd. Daw llawer o fanteision yn sgil garddio lotment, fel bod yn actif, gwella lles, cyswllt â natur ac ymdeimlad o gyrhaeddiad, yn ogystal ag yn y pen-draw cael cynnyrch lleol ffres i'w fwyta, beth allai fod yn well!"

Mae'r prosiect wedi creu 20 lle lotment sydd ar gael i'w rhentu gan y Gwasanaethau Cefn Gwlad. Mae 10 plot mawr (£52 y flwyddyn) a 10 plot lotment wedi'u codi (£25 y flwyddyn). Os oes gan unrhyw un ddiddordeb ac eisiau rhagor o wybodaeth, cysylltwch a **Sue Peters** ar **01824 712757**



Mae'r prosiect ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r grwpiau canlynol i greu cyfleoedd i ddefnyddio'r amgylchedd naturiol yn y dyfodol i wella iechyd a lles ein cymunedau.

- Cyfeillion Pengwern
- Partneriaeth Cymuned De Sir Ddinbych
- Coed Cadw
- Ein prosiect tirwedd pictiwresg
- Canolfan y Ffenics, y Rhyl
- Cydweithfa'r Crefftwyr
- Grŵp Lotment Cymunedol Edeyrnion
- Celfyddydau Sir Ddinbych:
- Atgyfeiriad ymarfer corff
- Canolfannau Meddygon Teulu Lleol
- Ysgolion Lleol
- A llawer o bartneriaid eraill yn y gymuned leol

Mae tîm y prosiect gwelliannau amgylcheddol ar hyn o bryd yn gweithio ar y canlynol yn eich ardal chi:

- **Y Rhyl**
    - Gardd gymunedol Canolfan y Ffenics
    - Plannu Coed yn Marsh Tracks
- **Prestatyn**
    - Plannu coed a chreu gardd gymunedol blodau gwyllt a synhwyraidd ym Mhorth Morfa
- **Corwen**
    - Lotments cymunedol Uwch y Dre
- **Llangollen**
    - Ardal awyr agored a choetir cymunedol Canolfan Gymunedol Pengwern

Os hoffech gymryd rhan yn unrhyw sesiynau yn eich cymuned leol, neu os oes gennych chi syniad am brosiect sy'n gwneud y mwyaf o'r amgylchedd naturiol yn eich cymuned, mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Natur Er Budd Iechyd drwy anfon e-bost at

**emily.reddy@sirddinbych.gov.uk**
neu ffonio **01824 706998.**





















# Rhywbeth i gloi cil drosto!!

Gadewch i ni gydweithio i wella ein lefelau ailgylchu gwastraff bwyd. Yn 2021 bydd gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu newydd yn cael ei gyflwyno.

Yn y cyfamser rydym yn cychwyn ymgyrch i gael mwy o bobl i ailgylchu eu gwastraff bwyd ac yn annog y rheiny sy'n gwneud hynny i ailgylchu mwy fyth.

Dywedodd y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Cabinet Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy: "Rydym yn hynod falch bod cymaint o breswylwyr yn Sir Ddinbych yn ailgylchu eu gwastraff bwyd ac mae gan y rhan fwyaf o aelwydydd yr offer i wneud hynny".

Dros y misoedd nesaf, fe welwch negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol, yn y wasg leol ac mewn rhifynnau o Lais Y Sir yn eich annog i ailgylchu mwy o wastraff bwyd. Byddwn yn rhannu gwybodaeth am yr hyn sy'n mynd i fewn i'r cynwysyddion bwyd ac yn dilyn teulu o Ddyffryn Clwyd wrth iddyn nhw rannu eu profiadau am ailgylchu gyda ni.

"Mae'n hollbwysig lledaenu mwy o wybodaeth am wastraff bwyd a dyma'r amser iawn i wneud hynny, wrth i ni baratoi i wneud newidiadau mawr dros y blynyddoedd nesaf".

I ganfod mwy am wastraff bwyd, ewch i:

**www.sirddinbych.gov.uk/ailgylchu**

# Nodyn atgoffa

Dyma beth fydd y gwasanaeth newydd yn cynnig:

- casgliad wythnosol ar gyfer deunyddiau y gellir eu hailgylchu fel papur, gwydr, caniau a phlastig
- Casgliad wythnosol ar gyfer gwastraff bwyd
- Casgliad bob pythefnos ar gyfer dillad ac eitemau trydanol bychain

Gyda 64% o'n gwastraff eisoes yn cael ei ailgylchu a chasgliad ailgylchu bob wythnos gyda chynwysyddion mwy, ychydig iawn o wastraff na ellir ei ailgylchu ddylai fod ar ôl yn y bin du.

Mae'r Cyngor felly'n cynnig newid y gwasanaeth casglu gwastraff na ellir ei ailgylchu **i gasgliadau bob pedair wythnos i'r rhan fwyaf o aelwydydd.** Gall preswylwyr ddewis cael biniau du mwy os oes eu hangen arnynt, ond yn gyffredinol bydd aelwydydd yn cael 35 litr yn ychwanegol bob wythnos yn eu Trolibocs ar gyfer ailgylchu gwastraff pecynnu (gan gynnwys caniau, tuniau, poteli gwydr a jariau, poteli plastig a thybiau, papur a cherdyn) o'i gymharu â'u bin ailgylchu glas presennol. Gallant greu mwy o le yn eu biniau du trwy ddefnyddio'r gwasanaethau ailgylchu newydd ar ymyl palmant ar gyfer tecstilau, nwyddau trydanol ac electronig, batris ac, os oes angen, clytiau a gwastraff anymataliaeth.

Mae'r Cyngor yn credu y dylai cynyddu maint biniau a chyflwyno gwasanaeth casglu wythnosol a didoli deunyddiau ailgylchu ar garreg y drws, gyda chefnogaeth casgliadau arbennig eraill, ddiwallu anghenion preswylwyr.

# Sut i gymryd rhan



**Rydym am i'n holl denantiaid:**

- gael llais ar sut mae ein gwasanaethau'n cael eu darparu,
- gweithio mewn partneriaeth â ni i barhau i wella cartrefi a'u cymunedau,
- gallu rhoi adborth i ni i wella ein gwasanaethau, ac

**I'n helpu i gyflawni hyn, rydym yn awyddus i glywed gennych. Os hoffech wirfoddoli a chymryd rhan. Mae gennym nifer o gyfleoedd a gweithgorau yr ydym yn edrych arnynt yn y dyfodol, gan gynnwys:**

- Golygu newyddlen
- Adborth Tenantiaid
- Cynhwysiant Digidol
- Cynhwysiant Ariannol
- Datblygu cymunedol

**Os ydych chi'n teimlo bod gennych unrhyw sgiliau a fyddai o fudd i'n hymrwymiad i fuddsoddi yn ein cymunedau a'u gwella, neu os ydych am ddatblygu sgiliau newydd, yna cysylltwch â ni ar 01824 706000 neu tai@sirddinbych.gov.uk**




# Diweddariad ar drwsio a chynnal a chadw

Mae canlyniadau Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr 2018-19 wedi dangos mai gwaith trwsio a chynnal a chadw sydd ymysg y tair blaenoriaeth uchaf o hyd i chi fel cwsmer. Fel rhan o 'Dywedoch chi, gwnaethom ni', byddwn yn cynnal sesiynau galw heibio dros yr haf i siarad gyda chi am rai gwelliannau yr hoffem eu cynnig. Bydd y gwelliannau hyn yn moderneiddio ein dull o fynd ati i ddelio â gwaith atgyweirio yn eich eiddo. Er enghraifft, byddem yn hoffi cyflwyno apwyntiadau wedi'u trefnu ar amseroedd i'ch siwtio chi.

Cofiwch ddod draw i un o'r sesiynau'r haf yma i sgwrsio â ni am hyn, ac i rannu eich meddyliau am y newidiadau yr ydym yn gobeithio eu cyflwyno. Bydd pob digwyddiad yn dibynnu ar y tywydd gan y byddant yn cael eu cynnal yn yr awyr agored, felly cofiwch edrych ar ein cyfrifon Facebook a Twitter am y wybodaeth ddiweddaraf.

| Mis | Ardal | Lleoliad | Dyddiad | Amser |
|---|---|---|---|---|
| Mehefin | **Y Rhyl** | Parc Bruton, wrth ymyl y llyn | 4ydd | 3:00pm – 4:30pm |
| | **Bodelwyddan** | Coronation Close, wrth ymyl y garejis | 6ed | 3:00pm – 4:30pm |
| | **Llanelwy** | Canolfan Gymunedol Llys y Felin | 10fed | 2:30pm – 3:30pm |
| | **Corwen** | Canolfan Gymunedol Llygadog | 12fed | 2:00pm – 3:00pm |
| | **Prestatyn** | Parc Chwarae South Avenue | 13eg | 3:30pm – 5:00pm |
| | **Y Rhyl** | Canolfan y Ffenics, Rhydwen Drive (ar y cyd a'r Ymddiriedolaeth Cŵn) | 17eg | 2:00pm – 4:00pm |
| | **Y Rhyl** | Canolfan Gymunedol Maes Emlyn | 19eg | 10:00am – 11:30am |
| | **Gallt Meliden** | Cae Pêl-droed, ger yr ysgol | 20fed | 3:00pm – 4:30pm |
| Gorffennaf | **Llangollen** | Siop un Stop | 9fed | 10:30am – 12:00pm |
| | **Dyserth** | Canolfan Gymunedol Maes Esgob | 15fed | 3:30pm – 4:30pm |
| | **Rhuthun** | Ystafell Gymunedol Trem y Foel | 18fed | 2:00pm – 3:00pm |
| | **Dinbych** | Ffordd Gwaenynog, gyferbyn ag Ysgol Pendref | 23ain | 2:30pm – 4:00pm |
| | **Dinbych** | Canolfan Gymunedol Cysgodfa | 25ain | 10:30am – 12:00pm |




# Diogelwch tân ar gyfer adeiladau ag ardaloedd cyffredin

**Anaml iawn y bydd tanau'n digwydd yn ein tai diolch byth. Fodd bynnag, os bydd tân yn digwydd mae adeiladau gydag ardaloedd cyffredin wedi eu dylunio yn y fath fodd fel bod digon o amddiffyniad i rwystro tân rhag lledaenu ac i'r gwasanaeth tân allu ei ddiffodd cyn i unrhyw beth mwy difrifol ddigwydd.**

Mae nifer o systemau yn eu lle yn y mathau hyn o tai i'ch diogelu chi:

### Synwyryddion mwg yn eich cartref:

Mae gennych synhwyrydd mwg a fydd yn canu yn eich cartref dim ond os yw wedi synhwyro mwg yn ogystal â larwm gwres a fydd fel arfer wedi ei osod yn eich cegin. Dim ond mewn achos o wres llethol y bydd y larwm gwres yn canu. Ni fydd y system larwm tân gymunedol yn canu oni bai bod unrhyw fwg, nwyon neu wres yn cynyddu'n sylweddol ac yn dod allan o'ch cartref i'r ardal gyffredin.



## Crynodeb

1. **Os ydych yn darganfod tân dylech adael yr adeilad ar unwaith gan ganu'r larwm wrth adael os yn bosibl a ffonio 999 unwaith y byddwch allan o'r adeilad.**
2. **Os bydd y prif larwm tân cyffredin yn canu, dylech adael yr adeilad ar unwaith**
3. **Ewch i ymgynnull yn y maes parcio gyda'r preswylwyr eraill.**
4. **Bydd y Gwasanaeth Tân yn rhoi gwybod i chi pan fydd yn ddiogel ichi fynd yn ôl i mewn i'r adeilad.**
5. **Os ydych yn clywed y larwm tân ond yn teimlo na allwch fynd allan o'ch cartref, dylech aros lle'r ydych a disgwyl i gael eich achub.**

**I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch ni ar 01824 706000.**

### System Larwm Tân Cyffredin

Os yw'r prif larwm tân cyffredin yn canu, dylech adael yr adeilad ar unwaith a mynd at flaen yr adeilad ac ymgynnull yn y maes parcio gyda'r preswylwyr eraill.

Bydd y Gwasanaeth Tân yn dod yno os bydd tân wedi'i gadarnhau ac yn rheoli'r sefyllfa. Bydd y Gwasanaeth Tân yn rhoi gwybod i chi pryd mae'n ddiogel mynd yn ôl i mewn i'r adeilad.

Os byddwch yn clywed y system larwm tân a'ch bod yn teimlo na allwch fynd allan o'ch cartref, dylech aros yno a disgwyl i gael eich achub. Os gallwch chi fynd at ffenestr, gwnewch hynny.

Os oes gennych unrhyw bryderon neu os oes arnoch angen mwy o wybodaeth, bydd ein staff yn barod iawn i ymweld â chi i'w trafod.





# Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd – Datblygiad Tai

**Yn y rhifyn diwethaf rhoesom ddiweddariad i chi ar ein rhaglen i ddarpar 170 o gartrefi cyngor ychwanegol ar draws y Sir erbyn 2022.**


Cawsom newyddion da ym mis Tachwedd pan gafwyd caniatâd cynllunio ar gyfer ein datblygiad fflatiau newydd ger The Dell ym Mhrestatyn. Cyn bo hir bydd contractwr yn cael ei benodi i wneud y gwaith adeiladu ac rydym yn disgwyl y bydd gwaith ar y safle yn cychwyn yn yr Hydref.

Hefyd ym Mhrestatyn rydym wedi gorffen trwsio draen sy'n rhedeg o dan safle hen Ysgol Gynradd Bodnant. Mae hyn yn golygu y gallwn ddechrau yn ddiweddarach yn yr haf ar y gwaith o adeiladu fflatiau ynni effeithlon newydd ar y rhan o'r safle ble arferai hen gantîn yr ysgol sefyll.

Rydym wedi cael rhywfaint o arian gan Lywodraeth Cymru i brynu eiddo yng Nghanol Tref y Rhyl a throi'r lloriau uchaf diddefnydd yn fflatiau. Rydym wedi prynu'r hen siop Next a'r hen siop awyr agored Granite ar y Stryd Fawr. Byddwn yn dechrau gweithio ar yr adeiladau hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae'r gwaith o droi'r adeilad y gwnaethom ei brynu yn Brighton Road, y Rhyl yn dri fflat bron wedi'i gwblhau.

Yn ogystal ag adeiladu o'r newydd ac ailwampio adeiladau, dros yr ychydig fisoedd diwethaf rydym hefyd wedi bod yn prynu cyn dai Cyngor yn ôl i'w hychwanegu at ein stoc, yn cynnwys un tŷ a thri fflat yn Rhuthun.

Fel y gwelwch rydym yn gwneud cynnydd gyda darparu tai Cyngor newydd a byddwn yn rhoi diweddariad arall i chi yn y rhifyn nesaf.







Gwaith ceuffos Bodnant



Ffordd Brighton, Y Rhyl




Y bwriad ar gyfer Stryd Fawr Y Rhyl

# Newyddion gwych!!

## Ers ein Harolwg Tenantiaid a Phreswylwyr diwethaf rydym wedi bod yn edrych ar sut y gallwn wella gwasanaethau ar eich cyfer chi a gwella profiad y cwsmer. Rydym eisiau bod yn fwy modern ac effeithlon yn y dyfodol fel y gallwn weithio gyda chi a'ch cymunedau i greu ymdriniaeth wydn sy'n cynnwys pawb.



Yn y gorffennol mae ein Swyddogion Tai wedi canolbwyntio ar di phrif faes: incwm, cymdogaethau a datblygiad cymunedol. Roedd gan bob swyddog 'ardal' ar gyfer eu maes arbenigol eu hunain, a oedd yn golygu edrych ar ôl tua 840 o gartrefi yr un. O Ebrill 2019 byddwn yn newid y ffordd y mae rhai swyddogion yn gweithio ac wedi creu rolau mwy generig, sef Swyddogion Tai Cyffredinol. Bydd pob un yn edrych ar ôl tua 300 o dai ar gyfartaledd, gan roi cyfle i swyddogion ddod i'ch adnabod chi'n well a gwneud i chi deimlo eich bod yn cael cyfrannu at bethau, yn ogystal a sicrhau gwasanaeth cwsmer gwell.

Er mwyn cefnogi ymdriniaeth mwy rhagweithiol rydym eisiau canolbwyntio ar eich deall chi'n well, beth allwn ni ei wneud i'ch cefnogi chi, gwneud y defnydd eithaf o'r byd digidol a bod yn fwy targedig a chydlynol ein hymdriniaeth. Bydd ein Swyddogion Datblygu Cymunedol yn parhau i weithio i ddatblygu cyfleoedd yn eich cymunedau i gydweithio ac am gynhwysiad digidiol/ariannol ac yn gweithio'n agos gyda'r Swyddogion Tai newydd.

Ein gweledigaeth yw profiad cwsmer modern, gwerth am arian, heb ei ail. Bydd ein canolfan gyswllt a'n gwefan newydd (yn cael eu lansio yn y haf 2019) yn caniatáu i chi ryngweithio ac ymgysylltu â ni pryd bynnag a sut bynnag sy'n eich siwtio chi, a mynd yn ddigidol o'ch dewis eich hun. Yn ogystal a'n gwefan newydd, rydym yn gweithio ar borth tenantiaid a fydd yn eich galluogi chi i weld eich gwybodaeth heb orfod ein ffonio ni. Byddwch yn gallu gwneud taliadau, rhoi gwybod am waith trwsio angenrheidiol, gweld eich cyfriflen rhent ddiweddaraf ayyb.

Rydym wir yn gobeithio y bydd y newidiadau hyn yn eich cefnogi chi a'ch cymunedau yn well ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn at ddod allan i'r cymunedau i'ch cyfarfod chi'n fuan iawn.





# Canlyniadau Arolwg Tenantiaid a Thrigolion 2018

Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi gweld newidiadau sylweddol i Dai Sir Ddinbych. Rydym eisiau parhau i godi ein safonau i'r lefel uchaf posibl ac mae angen i ni weithio gyda chi i gyflawni hyn.

## 90%

o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ar **ansawdd cyffredinol eu cartref.**

Mae hyn yn uwch na'r 86% yn 2016.

**1af** yng Nghyrmu.
Wedi'i feincnodi yn erbyn 15 sefydliad.



## 88%

o'n tenantiaid eu bod yn fodlon â'u **cymdogaeth** fel lle i fyw.

Mae hyn yn uwch na'r 85% yn 2016.

**4ydd** yng Nghyrmu.
Wedi'i feincnodi yn erbyn 15 sefydliad.



## 89%

o'n tenantiaid eu bod yn fodlon bod eu **rhent** yn rhoi gwerth am arian.

Mae hyn yn uwch na'r 85% yn 2016.

**3ydd** yng Nghyrmu.
Wedi'i feincnodi yn erbyn 15 sefydliad.



## 75%

o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ein bod ni **gwrando ar eu barn a gweithredu arnynt.**

Mae hyn yn uwch na'r 71% yn 2016.

**6ed** yng Nghyrmu.
Wedi'i feincnodi yn erbyn 15 sefydliad.



## 89%

o'n tenantiaid eu bod yn fodlon â'r ffordd rydym yn delio â **gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.**

Mae hyn yn uwch na'r 85% yn 2016.

**1af** yng Nghyrmu.
Wedi'i feincnodi yn erbyn 15 sefydliad.



## 91%

o'n tenantiaid eu bod yn fodlon guda'n **gwasanaeth cyffredinol.**

Mae hyn yn uwch na'r 84% yn 2016.

**3ydd** yng Nghyrmu.
Wedi'i feincnodi yn erbyn 15 sefydliad.



## Y prif flaenoriaethau ydych chi:

- Atgyweirio a chynnal a chadw
- Gwrando ac actio
- Ansawdd y cartref
- Amgylchedd
- Teimlo'n ddiogel



# Dywedoch chi fe wnaethom ni

Yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg STAR 2017, rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn y meysydd canlynol:

## Cynhwysiant ariannol a digidol

Fe wnaethom benodi swyddog i weld sut y gallwn wella mynediad i'r rhyngrwyd i'n tenantiaid a chefnogi'r symudiad ar-lein i Gredyd Cynhwysol.



## Gwelliannau Parcio

rydym wedi buddsoddi dros £1 miliwn i wella parcio yn Llanelwy a chymunedau llai eraill.




## Llwyfannau digidol

Rydym yn y camau olaf o ddatblygu gwefan newydd sy'n canolbwyntio ar denantiaid a fydd yn cael ei lansio'r haf hwn.

Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol wedi'u diweddaru'n rheolaidd.



## Erbyn hyn mae gennym dîm Datblygu Cymunedol i:

Wella'r ffordd rydym yn gwrando ac yn gweithredu.
Cefnogi nifer o brosiectau sy'n gwella'ch iechyd a'ch lles.
Gwella ein hymgysylltiad â chymunedau.



# Beth nesaf?

O arolwg STAR 2019, byddwn yn canolbwyntio ar feysydd tebyg i ganlyniadau'r arolwg STAR blaenorol ac i fesur unrhyw welliannau pellach y gallwn eu gwneud.

- Byddwn yn gweithio gyda chi i edrych ar sut y gallwn wella ein gwasanaeth Trwsio a Chynnal a Chadw. Bwriedir cynnal cyfres o sesiynau galw heibio i ddangos i chi gynlluniau ar gyfer apwyntiadau a drefnwyd ac ati. Gweler tudalen 11 am ragor o wybodaeth.

- Rydym wedi newid y ffordd y mae ein swyddogion cymdogaeth ac incwm yn gweithio, i wella'ch gwasanaeth cwsmeriaid yn well. Mae'r 'Swyddogion Tai' newydd yn rolau mwy generig, sy'n ein galluogi i ddod i'ch adnabod chi a'ch cymunedau yn well, cefnogi ymagwedd fwy ymgysylltiedig a bod yn fwy modern ac effeithlon. Gweler tudalen 14 am ragor o wybodaeth.

Byddwn yn parhau i:

- Edrych ar ffyrdd o wella mynediad i'r rhyngrwyd i'n cwsmeriaid.
- Hybu iechyd a lles yn ein cymunedau.
- Ymchwilio i faterion parcio.
- Cynyddu ein hymgysylltiad â chi a'n cymunedau i sicrhau eich bod yn teimlo ein bod yn gwrando arnoch ac yn gweithredu ar yr hyn a ddywedwch.

# Credyd Cynhwysol – Rheoli Eich Arian

**Rydym yn falch o gyhoeddi lansiad ein fideo animeiddiad newydd y gwanwn hwn - www.denbighshirehousing.co.uk sy'n egluro sut y gallwn helpu gyda'r trawsnewid i Gredyd Cynhwysol. Yn ogystal â hyn gallwn roi cymorth a chyngor gyda'r canlynol:**

- Cymorth digidol a mynd ar-lein
- Gwybodaeth am sefydliadau all ddarparu offer TG cost isel i'w ddefnyddio yn y cartref
- Cymorth gyda chyllidebu a rheoli eich arian
- Rheoli dyledion
- Gwneud cais am Ostyngiad Treth y Cyngor
- Gwneud cais am Brydau Ysgol am Ddim
- Rheoli ôl-ddyled a rheoli tenantiaeth




Mewn rhai amgylchiadau, gyda'ch caniatâd chi, efallai y byddwn yn eich cyfeirio i darparwyr eraill am gymorth. I gael rhagor o wybodaeth gallwch gysylltu a'r tim tai ar **01824 706000.**